**Cytundeb Cyfathrebu a Rhannu Gwybodaeth**

**rhwng**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

**a**

**Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

---

**Medi 2016**

## 1. Hanes adolygiadau a chymeradwyaeth

Cafodd y ddogfen hon ei pharatoi gan:

| Fersiwn | Dyddiad y cytunwyd arno |
|---|---|
| V1.0 | |

| Dyddiad | Disgrifiad o'r broses o adolygu'r dogfennau | Diweddarwyd y ddogfen gan |
|---|---|---|
| Awst 2016 | Drafft cychwynnol | Sarah Jones, AGIC |
| Awst 2016 | Mân newidiadau i roi eglurder ac er mwyn diweddaru'r manylion cyswllt | Kelly Davies, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Medi 2016 | Mân newidiadau i roi eglurder | Sarah Jones a Ruth Studley, AGIC, a Kelly Davies, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Medi 2016 | Llofnodi | Sarah Rochira a Kate Chamberlain |
| | | |

## 1. Cwmpas

1.1 Mae'r ddogfen hon yn gytundeb cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ('y Comisiynydd').

1.2 Mae'r cytundeb wedi'i seilio ar gyd-ddealltwriaeth rhwng AGIC a'r Comisiynydd y gall cyfathrebu'n effeithiol ac mewn modd amserol, yn ogystal â rhannu gwybodaeth, fod o fudd i bobl hŷn sy'n derbyn gwasanaethau gofal iechyd.

1.3 Bydd y cytundeb hwn yn dechrau ar 28/09/2016 a bydd yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.

## 2. Prif swyddogaeth AGIC

2.1 Swyddogaeth AGIC yw rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru mewn perthynas ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau, ac amlygu meysydd sydd angen eu gwella.

2.2 Gwneir hyn trwy:

- Roi sicrwydd annibynnol ynglŷn â diogelwch, ansawdd ac argaeledd gofal iechyd trwy reoleiddio effeithiol, a thrwy adrodd yn agored ac yn eglur am ein harolygiadau a'n hymchwiliadau
- Annog a chefnogi gwelliannau mewn gofal trwy adrodd a rhannu arferion da
- Sicrhau bod profiad y claf yn ganolog i brosesau arolygu ac ymchwilio AGIC; a
- Defnyddio profiad AGIC o ddarparu gwasanaethau i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.

## 3. Prif swyddogaeth y Comisiynydd

3.1 Mae'r Comisiynydd yn eiriolwr annibynnol dros bobl hŷn yng Nghymru. Prif swyddogaethau statudol y Comisiynydd yw:

- hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i warchod y buddiannau hynny;
- hybu darparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, a diddymu gwahaniaethu;
- annog arfer gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru; a
- pharhau i adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

[Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, Adran 2]

## 4. Y pwyntiau cyswllt, a pha mor aml y byddant yn cyfathrebu

4.1 Er mwyn sicrhau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth mewn modd effeithiol rhwng AGIC a swyddfa'r Comisiynydd, mae pwyntiau cyswllt wedi'u dynodi ar gyfer pob sefydliad ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

4.2 Bydd Prif Weithredwr AGIC a'r Comisiynydd yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod rhaglenni gwaith a meysydd o ddiddordeb i'r ddau sefydliad.

4.3 Ar wahân i gyfarfodydd wedi'u trefnu, dylai cyfathrebu a rhannu gwybodaeth hefyd ddigwydd pa bryd bynnag y bo materion cyffredin yn codi. Gallai materion o'r fath gynnwys y canlynol, ond nid oes rhaid iddynt fod wedi'u cyfyngu i hynny:

- rhannu gwybodaeth am dueddiadau, data, polisi a mentrau sy'n ymwneud â'r cydamcan o sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd da a bod eu buddiannau'n cael eu gwarchod;

- rhannu adroddiadau a allai fod yn berthnasol i waith y sefydliad arall mewn modd rhagweithiol;

- atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol pan fo un sefydliad o'r farn y byddai'r llall mewn sefyllfa i gynorthwyo;

- dosbarthu datganiadau i'r wasg mewn modd rhagweithiol ymysg y sefydliad arall, pan fo'r datganiad i'r wasg yn ymwneud â phryder sy'n gyffredin rhyngddynt;

- rhannu datganiadau i'r cyfryngau sy'n cyfeirio at y sefydliad arall mewn modd rhagweithiol er mwyn sicrhau bod y datganiad yn gywir ynglŷn â'r sefydliad hwnnw.

4.4 Bydd pob sefydliad yn sicrhau bod aelodau'r staff yn ymwybodol o gynnwys y Cytundeb Cyfathrebu a Rhannu Gwybodaeth hwn.

4.5 Bydd pob sefydliad yn gwneud ymdrech synhwyrol i gynorthwyo'r sefydliad arall gydag unrhyw gais, i'r graddau rhesymol ymarferol dros wneud hynny.

## 5. Rhannu gwybodaeth

### Faint o awdurdod sydd gan y Comisiynydd i rannu gwybodaeth

5.1 Ni chaniateir i'r Comisiynydd ddatgelu gwybodaeth a gafwyd wrth wneud ei dyletswydd, ac eithrio pan fydd wedi'i hawdurdodi dan Adran 18 (3) Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.Mewn perthynas â'r cytundeb hwn, caiff y Comisiynydd ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r adran hon ar gyfer y dibenion canlynol –

(a) ar gyfer gwneud ei dyletswyddau

(d) ar gyfer ymholiad, gyda'r bwriad o gymryd camau

(f) os yw'r wybodaeth yn ymwneud â bod unigolyn yn debygol o fod yn fygythiad i iechyd neu ddiogelwch un neu fwy o bobl, ac os yw'r Comisiynydd o'r farn y dylid datgelu gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn er lles y cyhoedd.

5.2 Hyd yn oed os caniateir datgelu gwybodaeth dan Adran 18 (3), rhaid bodloni'r amod yn Adran 18 (4) bod y datgeliad:-

(a) yn briodol at ddibenion y datgeliad gan yr unigolyn awdurdodedig [mae gan gyflogeion AGIC yr awdurdod hwn yn rhinwedd eu swydd dan Adran 18 (9)]; ac

(b) er budd y cyhoedd.

**Faint o awdurdod sydd gan y Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth**

5.3 Mae gan y Comisiynydd yr awdurdod hefyd i'w gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth dan Reoliad 4 Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 fel a ganlyn. Yn unol â Rheoliad 4, gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson a benodir yn unol â pharagraff (2) ddatgelu gwybodaeth y mae'r Comisiynydd yn ei hystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus i'w chael er mwyn:-

(a) adolygu trefniadau'n ymwneud ag eiriolaeth, cwynion, neu chwythu'r chwiban;

(b) asesu effaith methiant unrhyw unigolyn i wneud trefniadau o'r fath;

(c) penderfynu a yw argymhelliad a wnaed mewn adroddiad yn dilyn adolygiad wedi'i wneud.

Yn rhinwedd paragraff (2), mae cyflogeion AGIC yn unigolion a benodir ar gyfer dibenion Rheoliad 4. Mae hefyd yn cynnwys cyn-weithwyr.

5.4 Felly mae gan y Comisiynydd yr awdurdod i ddatgelu gwybodaeth i AGIC a gofyn am wybodaeth gan AGIC dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.Mae'r cytundeb hwn wedi'i gynllunio i ategu ac i helpu i ddeall faint o awdurdod sydd gan y Comisiynydd o ran rhannu gwybodaeth.

5.5 Wrth rannu gwybodaeth yn unol â'r cytundeb hwn, bydd AGIC a'r Comisiynydd bob amser yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau perthnasol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

5.6 Pan fydd naill ai'r Comisiynydd neu AGIC yn derbyn gwybodaeth bersonol yn unol â thelerau'r cytundeb hwn, ac yn cynnal a defnyddio'r wybodaeth honno ar gyfer ei ddibenion ei hun, bydd y sefydliad sy'n derbyn y wybodaeth honno'n mynd yn "rheolydd data" y wybodaeth at ddibenion y Ddeddf Diogelu Data, a bydd yn ymdrin â'r wybodaeth dan sylw yn unol â hynny.

5.7 Pan fydd naill ai'r Comisiynydd neu AGIC yn derbyn gwybodaeth am unigolyn adnabyddadwy, bydd y sefydliad sy'n derbyn y wybodaeth yn "brosesydd data" at ddibenion y Ddeddf Diogelu Data, fel bod modd i'r sefydliad sy'n derbyn y wybodaeth brosesu'r wybodaeth honno ar ran y sefydliad sy'n datgelu'r wybodaeth, a bydd yn:

- defnyddio'r data yn unol â chyfarwyddiadau'r sefydliad sy'n datgelu yn unig*;
- sicrhau bod yr holl fesurau trefnu priodol ar waith er mwyn diogelu'r data rhag eu defnyddio heb awdurdod neu mewn modd anghyfreithlon, neu rhag colled ddamweiniol neu ddifrod; a
- sicrhau bod yr holl weithwyr sy'n cael defnyddio'r data yn ymwybodol o'u dyletswyddau dan y Ddeddf Diogelu Data.

* Pan fo'r Comisiynydd yn rhoi Adran 18 (3) (f) Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 ar waith, yna gwneir pob ymdrech i sicrhau bod AGIC yn ymwybodol o'r bwriad i ddatgelu'r wybodaeth honno.

5.8 Pe bai angen i AGIC ddatgelu unrhyw wybodaeth a gafwyd gan y Comisiynydd i drydydd parti, ceisir caniatâd y Comisiynydd i ddefnyddio a/neu ddatgelu'r wybodaeth a rennir.

5.9 Wrth rannu gwybodaeth yn unol â'r cytundeb hwn, bydd AGIC a'r Comisiynydd bob amser yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau perthnasol yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998 (mae Erthygl 8 yn sefydlu'r hawl amodol i barchu bywyd preifat a bywyd teulu).Mae hyn yn tanlinellu dyletswydd y ddau sefydliad i warchod preifatrwydd unigolion a chadw cyfrinachedd o ran cofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol. Rhaid i unrhyw gynllun i neilltuo rhwymedigaethau o ran cadw cyfrinachedd trwy ddeddfwriaeth ddilyn amcan cyfreithlon, gael ei ystyried yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, a bod yn gymesur â'r angen.

5.10 Mae AGIC a'r Comisiynydd yn cydnabod eu bod yn destun Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac y bydd yn rhaid iddynt o bosibl ddatgelu gwybodaeth a ddarperir yn unol â thelerau’r cytundeb hwn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Maent yn cytuno i ymgynghori â'i gilydd pan dderbynnir cais am wybodaeth dan y

Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, pan fyddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o effeithio ar les ei gilydd.

5.11 Wrth rannu gwybodaeth yn unol â'r cytundeb hwn, bydd y Comisiynydd ac AGIC bob amser yn gweithredu yn unol â phob haen berthnasol Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.

5.12 Yn ogystal â'r rhwymedigaethau hyn, bydd AGIC a'r Comisiynydd yn cyfathrebu'n allanol ynglŷn â'r ystod eang o weithgarwch a wnânt, a byddant yn gwneud eu gorau i roi rhybudd ymlaen llaw i'w gilydd ynglŷn â chyhoeddusrwydd neu weithgarwch arall sy'n debygol o fod o ddiddordeb.

5.13 Y sefydliad gwreiddiol sy'n parhau i fod yn berchen ar wybodaeth a rennir bob amser.

5.14 Mae Atodiad 2 yn nodi'r paramedrau a'r gofynion ar gyfer rhannu gwybodaeth. Dylai hyn gynnwys pob achos lle mae angen rhannu gwybodaeth neu ddata rhwng AGIC a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

## 6. Adolygu

Bydd y cytundeb hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.

## 7. Datrys anghydfod

Bydd y ddau sefydliad yn ceisio datrys unrhyw anghytundebau mewn modd cyfeillgar ar lefel weithredol. Pan na ellir datrys y broblem, bydd y mater yn cael ei uwchgyfeirio fel y nodir yn Atodiad 1.

Llofnod: Dyddiad: 27 Medi 2016

Dr Kate Chamberlain, Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Llofnod: Dyddiad: 27 Medi 2016

Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Atodiad 1**

Bydd pwyntiau cyswllt penodol rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Comisiynydd fel a ganlyn:

| **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** | **Comisiynydd Pobl Hŷn** |
|---|---|
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br>Ffôn: 0300 062 8163<br>E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk<br>Gwefan: www.agic.org.uk | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Adeiladau Cambrian<br>Sgwâr Mount Stuart<br>Caerdydd<br>CF10 5FL<br>Ffôn: 029 2044 5030<br>E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com<br>Gwefan: www.olderpeoplewales.com |
| | |
| Dr Kate Chamberlain<br>Prif Weithredwr<br>E-bost: Kathryn.chamberlain@wales.gsi.gov.uk | Sarah Rochira<br>Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>E-bost: sarah.rochira@olderpeoplewales.com |
| | |

| **Swyddogion Arweiniol** | |
|---|---|
| Sarah Jones<br>Pennaeth Gwybodaeth a Datblygiad Corfforaethol<br>E-bost: sarah.jones3@wales.gsi.gov.uk<br>Ffôn: 0300 062 8383 | Kelly Davies<br>Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol<br>E-bost: kelly.davies@olderpeoplewales.com<br>Ffôn: 029 2044 5055 |
| | |
| **Cyfryngau** | |
| Natalie Jones<br>Y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>E-bost: HIWcomms@wales.gsi.gov.uk<br>Ffôn: 0300 062 8163 | Richard Jones<br>Pennaeth Cyfathrebu<br>E-bost: richard.jones@olderpeoplewales.com<br>Ffôn: 029 2044 5040 |
| **Datrys Anghydfodau** | |
| Ruth Studley<br>Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygiad<br>E-bost: ruth.studley@wales.gsi.gov.uk<br>Ffôn: 0300 062 8382 | Kelly Davies<br>Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol<br>E-bost: kelly.davies@olderpeoplewales.com<br>Ffôn: 029 2044 5055 |

## Atodiad 2 – Gwybodaeth i'w Rhannu

| Perchennog y Wybodaeth | Gwybodaeth i'w Rhannu | Yr Angen Busnes dros Rannu | Pa mor Aml y Dylid ei Rhannu | Marcio Amddiffynnol | Dull Rhannu (i gynnwys y cyfryngau ac unigolion perthnasol) | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |